# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MAWRTH, 1AF HYDREF, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 24 Medi 2024)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Lleol |
| Gwilym Jones | Aelod Lleol |
| June Jones | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Dr Melfyn Edwards | Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog |
| I'w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| I'w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| I’w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| Ian Roberts | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Will Walker-Jones | Cynrychioli Sefydiad y Bad Achub Cricieth |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Desmond George | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| David Williams | Deputy - Aberdyfi Harbour Consultative Committee |
| Stephen Tudor | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2024/25.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION** 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gymhaliwyd ar 27ain Chwefror, 2024 fel rhai cywir.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 8 - 19

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 4ydd Mawrth, 2025.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 27/02/24

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Gwilym Jones (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd) (Is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) a Will Walker-Jones (Sefydliad y Bad Achub Criccieth).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Malcolm Humphreys (Harbwrfeistr Porthmadog) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**SYLWEDYDD:** Desmond George (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Aled Griffith (Cyngor Tref Porthmadog), Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned) ac Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Hydref, 2023 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI’R HARBWR**

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr harbwr.

(1) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad bras i’r pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a Chwefror 2024.

*(Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol yn absenoldeb yr Uwch Swyddog Harbyrau oherwydd salwch.)*

Diolchwyd i’r Uwch Swyddog Harbyrau am baratoi’r adroddiad ysgrifenedig, a dymunwyd gwellhad buan iddo.

Llongyfarchwyd Math Roberts ar ei benodiad i’r swydd lawn amser Swyddog Traethau. Mewn ymateb i gwestiwn, nodwyd na ragwelid ar hyn o bryd y byddai angen i’r Swyddog Traethau fynychu cyfarfodydd y pwyllgor harbwr gan mai traethau

fyddai prif ffocws y swydd, ond eglurwyd y byddai'r swyddog yn cynorthwyo staff yr harbwr gyda materion harbwr hefyd pan fo angen.

Fel rhan o'r adroddiad, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol grynodeb byr o gyllidebau'r Harbwr 01/4/23 - 31/3/24 (Adolygiad Tachwedd 2023), a gynhwyswyd fel atodiad i'r adroddiad. Manylwyd ar yr elfennau canlynol o'r gyllideb:-

<u>Gweithwyr</u>
Eglurwyd bod y gorwariant a ragwelid o dan y pennawd hwn yn bennaf oherwydd costau goramser staff oedd wedi'u galw i mewn i'r gwaith yn ystod cyfnodau o wyliau / y tu allan i oriau gwaith arferol dros y flwyddyn i ddelio â digwyddiadau, nid yn unig yn Harbwr Porthmadog, ond ar y traethau ac yn yr harbyrau eraill yng Ngwynedd hefyd.

Diolchwyd i'r staff, ac yn arbennig i'r Harbwrfeistr a'r Harbwrfeistr Cynorthwyol, am eu hymrwymiad i gynorthwyo gyda'r digwyddiadau hyn.

<u>Eiddo</u>
Eglurwyd bod arian ychwanegol wedi'i gynnwys dan y pennawd hwn rhag ofn y byddai angen gwario'n sylweddol ar yr adeiledd, wal yr harbwr neu'r tir o gwmpas yr harbwr. Gan na chafwyd unrhyw gostau sylweddol y tymor hwn, rhagwelid tanwariant ar y gyllideb.

<u>Gwariant Un Tro – Ariannu o Gronfeydd yr Adran</u>
Eglurwyd:-

- O ganlyniad i godi ffioedd, bod gan y Gwasanaeth Morwrol a Hafan Pwllheli gronfeydd lle mae arian wedi cronni ers blynyddoedd, a chafwyd cyfarwyddyd i adnabod cynlluniau ar draws y Gwasanaeth lle gellid defnyddio'r arian hwnnw i wella cyfleusterau morwrol.
- Bod nifer o brosiectau wedi'u rhoi ymlaen, gyda rhai yn cael eu gwireddu yn y flwyddyn ariannol bresennol, ac eraill yn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mai un o'r prif brosiectau yn Harbwr Porthmadog oedd adnewyddu'r cadwyni angori, a buddsoddwyd cyllid sylweddol yn hynny, yn ogystal â chynnal a chadw'r bwiau, lleoli ysgolion newydd ar ochr wal yr harbwr a chostau contractwyr i ymgymryd â'r holl waith.
- Bod oddeutu £28,000 wedi'i wario hyd yma, a rhagwelid gwariant pellach o rhwng £7,000 ac £8,000 cyn diwedd Mawrth ar fanion eraill, gan gynnwys gwaith gwella'r compownd, ail-leoli slabiau yn yr ardal y tu cefn i adeilad yr harbwr ac uwchraddio system teledu cylch cyfyng.
- Na fyddai'r gwariant hwn yn cael unrhyw effaith ar y gyllideb gan fod £36,000 wedi'i drosglwyddo o gronfeydd yr Adran i gwrdd â'r costau.
- Bod rhagor o arian yn y gyllideb i wneud gwelliannau ar dir yr harbwr hefyd, er na ragwelid y byddai modd gwario'r arian hwnnw erbyn diwedd Mawrth.
- Bod bwriad hefyd i ddefnyddio arian o'r cronfeydd hyn ar gyfer pob math o welliannau yn yr harbwr dros yr haf a thrwy gydol y flwyddyn.

<u>Incwm</u>
Eglurwyd bod yr incwm ychydig yn is na'r disgwyl oherwydd y tywydd gwael yr haf diwethaf.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd bod costau'r holl gerbydau morwrol yn cael eu hariannu yn ganolog o'r gyllideb traethau.

Yna manylodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol ar ffioedd a thaliadau 2024/25, gan nodi:-

- Bod y Gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd ar gyfer 2024/25 yn unol â chyfradd chwyddiant, sef 7.49% ar y pryd.
- Er bod ffioedd angorfeydd wedi'u codi'n uwch na lefel chwyddiant mewn rhai harbyrau eraill, awgrymwyd cynnydd yn unol â chwyddiant yn unig yn Harbwr Porthmadog gan fod y ffioedd angori wedi bod yn hanesyddol yn uwch yno nag mewn harbyrau fel Aberdyfi ac Abermaw.
- Y codwyd y ffioedd lansio a chofrestru ychydig bach yn uwch na chwyddiant. Gan bod y ffi lansio eisoes wedi cynyddu o £10 yn 2020 i £22 y llynedd, awgrymwyd cadw'r ffi yn £22 ar gyfer 2024/25 gyda'r ffi cofrestru yn codi o £60 i £70 (sef cynnydd o bron i 17%) a'r ffi flynyddol, sef cofrestru a'r tocyn tymhorol a lansio yn codi o £170 i £180 (sef cynnydd o 6%).

(2) Adroddiad yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a Chwefror, 2024, gan gynnwys materion cynnal a chadw.

Cyn cychwyn cyflwyno ei adroddiad, cydymdeimlodd yr Harbwrfeistr â theulu Michael Holt o Borthmadog, fu farw'n ddiweddar tra'n rhwyfo ar draws Cefnfor yr Iwerydd mewn ymgais i godi arian i ddwy elusen.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad ysgrifenedig, nododd yr Harbwrfeistr:-

- Bod yr holl waith ar yr angorfeydd yn yr harbwr wedi'i gwblhau bellach.
- Y byddai'r gwaith o uwchraddio offer y cyfleuster Teledu Cylch Cyfyng yn yr harbwr yn cael ei gwblhau yn y 3 wythnos nesaf.
- Y gofynnwyd i Adran Briffyrdd y Cyngor ac i gwmni lleol am bris ar gyfer ail-osod y slabiau palmant sydd wedi'u codi gan wreiddiau coed o amgylch yr harbwr.
- Bod *Parkingeye* yn fyw yn y Ganolfan bellach.
- Y derbyniwyd cŵyn gan aelod o'r cyhoedd bod diffibrilwyr ym Morfa Bychan wedi'u tynnu oddi ar eu safleoedd, ond bod hynny wedi'i wneud oherwydd diffyg cyflenwad trydan i'r blychau sydd yn eu dal, gan fod peryg' y gallai'r padiau gel rewi a'r batris fynd yn fflat ac i anwedd ffurfio o ganlyniad i ddiffyg gwres yn y bocs. Gobeithid y byddai'r diffibrilwyr yn ôl yn eu safleoedd wythnos nesaf.
- Bod 2 neu 3 o ymatebwyr i holiadur diweddar wedi holi a oedd modd gosod gwe gamera yn yr Harbwr, ac o bosib' bod hyn yn rhywbeth y gellid gofyn i Gyngor Tref Porthmadog ystyried ei wneud, mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Morwrol.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

Llongyfarchwyd y Gwasanaeth ar fodloni'r arolygydd o Dŷ'r Drindod bod popeth mewn trefn dda ac effeithlon o ran y cofnodion o argaeledd y cymhorthion mordwyo lleol o dan reolaeth Cyngor Gwynedd, ac nad oedd unrhyw faterion yn codi oedd angen sylw pellach.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chost y gwaith o drin cwch y Dwyfor a'r cwch patrôl 'Powercat', nodwyd y neilltuwyd cyllid penodol ar gyfer y gwaith cynnal a chadw ar gwch y Dwyfor. Eglurwyd bod cwch y Dwyfor yn rhedeg yn dda yn sgil cwblhau gwaith sylweddol arni cyn y cyfnod Cofid, gan gynnwys ail-adeiladu'r injan, ond bod y rheoliadau o ran codio cychod, ayb, wedi newid bellach. Nodwyd hefyd nad oedd yna gostau sylweddol ar y cwch patrôl 'Powercat'.

Diolchwyd i'r Gwasanaeth am y rhaglen o waith cynnal a chadw ar feinciau eistedd a'r waliau cerrig ger hen lecyn docio'r peilot ym Morth y Gest.

Ategwyd geiriau'r Harbwrfeistr ynglŷn â Michael Holt a diolchwyd i'r Harbwrfeistr am ei holl waith gyda'r diffibrilwyr ym Morfa Bychan. Diolchwyd hefyd am yr adroddiad ac am y gwaith o osod yr ysgolion ar wal yr harbwr, ayb, a mynegwyd cefnogaeth i'r syniad o gael gwe gamera yn yr harbwr. Mynegwyd gobaith y byddai cwch y Dwyfor a'r cwch patrôl 'Powercat' yn ôl mewn gwasanaeth erbyn yr haf. Mewn ymateb, nodwyd ei bod yn debygol y byddai'r cychod yn ôl mewn gwasanaeth cyn y Pasg, ond bod modd defnyddio cychod o harbyrau eraill hefyd petai gwir angen cwch ar y dŵr yn yr harbwr yn y cyfamser. Nodwyd ymhellach:-

- Y llwyddwyd i gyrraedd y gofynion am y tymor yma o ran y rheoliadau codio.
- Bod codio cwch y Dwyfor yn wahanol i'r 'Powercats' oherwydd ei bod yn codi bwiau a phryderid, pe byddai gofynion y Cod yn newid, yna bod risg na ellid defnyddio'r Dwyfor i wneud unrhyw waith allan ar y môr, ac felly'n ddibynnol ar gontractwr, sy'n mynd i gynyddu'r costau.
- Y neilltuir cyllideb benodol ar gyfer y gwaith o gynnal a chadw cwch y Dwyfor, ond y gallai'r gwir gost fod yn uwch na'r hyn a ragdybiwyd oherwydd yr angen i wneud gwaith ychwanegol na ragwelwyd.

Diolchwyd i'r Harbwrfeistr a'r staff am y gwaith caled o geisio cadw Sianel Porthmadog yn glir ac wedi'i farcio, a nodwyd y byddai gwe gamera yn yr harbwr yn gallu bod o gymorth i Sefydliad y Bad Achub hefyd.

Holwyd beth fyddai cost gosod a chynnal gwe gamera yn yr harbwr. Mewn ymateb, nodwyd y gallai'r Harbwrfeistr wneud ymholiadau ynglŷn â hynny, ond y credid y byddai adnodd o'r fath yn fuddsoddiad da iawn i'r harbwr. Gwnaed y sylw hefyd ei bod yn werth buddsoddi mewn gwe gamera o ansawdd.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

## 6. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 1 Hydref, 2024 (yn ddarostyngedig i'w gadarnhau gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth).

Nodwyd bod y 3 phwyllgor harbwr arall yn cyfarfod yn ystod y dydd bellach, a holwyd a fyddai gan yr aelodau ddiddordeb mewn cynnal y pwyllgor hwn yn ystod oriau gwaith hefyd.

Nodwyd ei bod yn arferol i'r pwyllgor hwn gyfarfod am 5.30yp ar ddydd Mawrth, ond na fyddai'n ymarferol ei gynnal yn gynharach yn y dydd oherwydd gofynion eraill ar rai o'r aelodau. Gan hynny, cytunwyd i adael yr amseru fel y mae ar hyn o bryd.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30yp a daeth i ben am 6.10yp.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **1 Hydref 2024** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad cryno i sylw'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2024 i Hydref 2024, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Addasu Harbwr Porthmadog 1998. Yn ôl y gorchymyn, mae pymtheg (15) aelod yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. Gellir gweld rhestr gynhwysfawr o'r grwpiau a sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y pwyllgor Harbwr yng Ngorchymyn yr Harbwr.

1.4 Sefydlwyd Pwyllgorau Harbwr Abermaw, Aberdyfi a Phwllheli dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 2. Angorfeydd Porthmadog a Chofrestru Cychod.

2.1 Roedd 109 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn harbwr Porthmadog yn 2024. Mae hyn yn cymharu â 106 o gychod ar angorfeydd yn 2023.

2.2 Fel y llynedd, bu cynnydd yn nifer y cwsmeriaid sy'n dymuno cael angorfa yn harbwr Porthmadog. Y gobaith yw y bydd y duedd hon yn parhau yn 2025.

2.3 Mae'r rhan fwyaf o'r cyhoedd sy'n dymuno cofrestru eu badau dŵr pŵer i'w defnyddio ar hyd arfordir Gwynedd bellach yn gwneud hynny ar-lein, drwy wefan Cyngor Gwynedd. Y tymor hwn fe gofrestrodd 1013 o gychod pŵer a 1044 o fadau dŵr personol. Yn ychwanegol i'r ffigyrau hyn, cofrestrwyd 84 cwch gydag injan o dan 10 hp hefyd, sy'n rhoi cyfanswm o 2141 o gofrestriadau ar gyfer y tymor.

2.4 Mae'r nifer hwn o gofrestriadau cychod yn llai nag y llynedd pan gofrestrwyd cyfanswm o 2509 o fadau dŵr. Mae'n ddigon posibl bod y tywydd byrhoedlog a welsom eleni, ynghyd â'r hinsawdd ariannol bresennol, wedi cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y cofrestriadau cychod y tymor hwn.

## 3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.

3.1. Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn yr amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan ystod eang o randdeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn â gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Porthmadog.

**4. Materion Staffio.**

Mae'r lefel staffio yn harbwr Porthmadog wedi aros heb newid ers yr adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor. Cefnogir yr Harbwrfeistr, Mr Malcolm Humphreys, yn ei waith gan yr harbwrfeistr cynorthwyol Mr Richard Hughes. Er gwaethaf y tywydd gwael, mae staff yr harbwr wedi bod yn brysur dros gyfnod yr haf. Mae'r staff hefyd wedi cynorthwyo staff sy'n gweithio yn harbwr Abermaw fel bo'r angen, ac ar y traeth ym Morfa Bychan.

4.1 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gallu galw ar staff sydd wedi'u lleoli yn harbyrau Abermaw ac Aberdyfi i gynorthwyo gydag unrhyw waith yn harbwr Porthmadog os oes angen.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Bydd y Rheolwr Morwrol yn darparu crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn bu rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd
- Prynu a chynnal a chadw offer a chyfarpar yr harbwr
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl Powercat yr harbwr
- Cynnal a chadw'r cwch 'Dwyfor'. Buddsoddi i gynnal a chadw'r cwch er mwyn diwallu gofynion y Cod Ymarfer a chynnal y cyfarpar codi.
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2025/26.**

O ran y darpar ffioedd a thaliadau ar gyfer Harbwr Porthmadog ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol ar gyfer tymor 2025/2026, ar achlysuron blaenorol mae'r Gwasanaeth wedi addasu ffioedd yn unol â'r gyfradd chwyddiant gyffredinol ar y pryd. Fodd bynnag, hyd yma, ni wnaed unrhyw benderfyniad ynghylch lefel y ffioedd ar gyfer y tymor nesaf.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd yr Harbwrfeistr ym Mhorthmadog yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2024 a mis Hydref 2024 yn gynhwysol, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad ynghlwm.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **1 Hydref 2024** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **M. Humphreys, Harbwrfeistr Porthmadog** |

## H 1 Materion Mordwyo

1.1 Mae'r sianel fordwyo i harbwr Porthmadog wedi bod yn cael ei monitro gan staff yr harbwr dros yr haf. Mae'r ddynesfa at y sianel o gyfeiriad y môr wedi aros yn gymharol sefydlog, a doedd ond angen ail-leoli'r cymhorthion mordwyo ryw fymryn.

1.2 Bydd staff yr harbwr yn parhau i fonitro llwybr y sianel ac yn symud y cymhorthion mordwyo yn ôl yr angen, i sicrhau eu bod yn darparu'r llwybr mwyaf diogel i mewn ac allan o'r harbwr.

1.3 Mae'r Gwasanaeth yn cynghori bod yr holl farciau mordwyo angenrheidiol yn eu lle ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw Hysbysiad i Forwyr yn weithredol am y tro.

1.4 Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa morwyr o'r angen i lywio'r sianel 1.5 awr naill ochr i'r penllanw wrth fordwyo cwch sydd â'i ddyfnder yn y dŵr yn fwy na 1.5 metr.

1.5 Atgoffir morwyr hefyd y dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr ymlaen llaw cyn dod i mewn neu adael yr harbwr, i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y tywydd a mordwyo. Bydd unrhyw newidiadau i'r cymhorthion mordwyo yn cael eu cylchredeg drwy Hysbysiad Lleol i Forwyr.

## H 2 Materion Gweithredol

2.1 Mae symudiadau cychod wedi parhau drwy gydol cyfnod yr haf, gyda chychod sy'n ymweld yn cael eu gosod ar y 'angorfeydd trot' yn yr harbwr mewnol ac ar y strwythur pontŵn sy'n perthyn i Glwb Hwylio Madog.

2.2 Mae tywydd gwael wedi bod yn batrwm yr haf yma, gyda glaw ynghyd â gwynt o'r de-orllewin yn aml. Mae hyn wedi effeithio ar nifer yr ymwelwyr a welwyd yn yr harbwr eleni.

2.3. Ar ddydd Gwener 21 Mehefin, cafodd staff yr harbwr eu galw i gynorthwyo gyda chwch hwylio lleol ger traeth Morannedd, Cricieth, gan fod y capten wedi cael ei daro'n wael tra roedd yn hwylio'r cwch. Gyda chymorth cychod y Bad Achub (RNLI), fe angorwyd y cwch ryw bellter o'r traeth ac aethpwyd â'r capten yn ddiogel o'r cwch.

2.3.1 Yn anffodus, yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw pan geisiodd y perchennog gael y cwch yn ôl, aeth y propelor yn sownd, a chafodd ei orlifo gan donnau'r llanw. Daeth i'r lan ar y traeth yn nes ymlaen.

2.3.2 Wedi hynny cafodd y cwch ei achub o draeth Morannedd ar 9 Gorffennaf gan gwmni adfer cerbydau lleol gan ddefnyddio offer codi trwm, mewn ymgynghoriad â chwmni yswiriant y perchnogion.

2.4 Ar ddydd Llun 24 Mehefin, aeth cwch hwylio lleol i drafferthion yn y sianel ym Mhorthmadog tra oedd yn hwylio allan i'r môr. Aeth y cwch yn sownd ar draethell gan achosi difrod i gorff y cwch o dan llinell y dŵr, ac felly dechreuodd dŵr fynd i mewn iddo.

2.4.1 Gyda chymorth bad achub Cricieth, cafodd y bobl oedd ar y cwch eu hachub yn ddiogel i'r lan, cyn i'r cwch fynd o dan y dŵr.

2.4.2 Gan gydweithio â Gwylwyr y Glannau Caergybi, dilynodd staff yr harbwr yr holl weithdrefnau angenrheidiol wrth ddelio gyda'r digwyddiad, ac yn ddiweddarach fe wnaethant dynnu'r cwch wedi difrodi yn nes at y lan tuag at Borth-y-Gest lle gellid archwilio'r difrod yn well.

2.4.3 Wrth archwilio'r difrod i gorff y cwch, fe benderfynodd y perchennog ei fod wedi difrodi gormod i allu ei drwsio am bris rhesymol, a gyda chymorth staff yr harbwr a chontractwyr lleol, fe dynnwyd y cwch yn nes eto i'r lan ac wedi hynny cafodd ei dynnu o'r dŵr yn llwyr ar gost y perchennog.

2.5 Hoffai'r Gwasanaeth ddiolch i gwmni Robert Owen Marine Porthmadog, am y ddarpariaeth barhaus o gychod personol. Mae'r cychod hyn wedi bod o gymorth mawr i staff morwrol wrth iddynt gadw llygad bod pethau'n cael eu gweithredu'n ddiogel ar y safle lansio cychod ar draeth Morfa Bychan, a gyda symudiadau badau dŵr personol yn Sianel Porthmadog.

## H 3 Cynnal a Chadw

3.1 Cyn dechrau'r tymor prysur, gwnaed gwaith cynnal a chadw ar y gadwyn fawr, drom ar wely'r harbwr a'r angorfeydd cysylltiedig yn yr harbwr gan gontractwr angorfeydd leol.

3.2 Bydd staff yr harbwr yn cwblhau rhaglen o archwilio'r marciau mordwyo yn y sianel yn ystod y gaeaf. Bydd y marciau mordwyo yn cael eu codi, a phan fo angen byddant yn dod â hwy i'r lan i'w hatgyweirio.

3.2.1 Bydd y marc mordwyo ‘dŵr diogel’ sy'n llawer mwy, sef y bwi ‘Fairway’, sydd wedi'i leoli ar ochr y môr o'r sianel, yn cael ei godi gan gontractwr lleol er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw arno. Mae angen llusern newydd ar gyfer y bwi erbyn hyn, a bydd hynny'n golygu cost net o £800 i'r gwasanaeth.

3.2.2 Mae'r Gwasanaeth Morwrol ar hyn o bryd yn aros am archwiliad blynyddol o'r marciau mordwyo a'r cofnodion cynnal a chadw cysylltiedig gan swyddogion o'r Awdurdod Goleudai, Tŷ'r Drindod. Mae'r archwiliad wedi'i drefnu ar gyfer diwedd yr hydref. Caiff y Pwyllgor wybod am ganlyniadau'r archwiliad, unwaith mae'r arolwg wedi'i gynnal ac adroddiad wedi'i dderbyn ar eu canfyddiadau.

3.3 Cyn dechrau tymor prysur yr haf, fe wnaethpwyd gwaith i atgyweirio'r slabiau palmant oedd wedi torri a chodi o amgylch yr harbwr. Cafodd y gwaith helaeth hwn ei wneud gan gwmni lleol ar gost net o £3349 i'r Gwasanaeth.

3.4 Rydym yn parhau i adnewyddu'r meinciau o gwmpas yr harbwr fel bo'r angen. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gael ceisiadau i ni osod meinciau o amgylch yr harbwr, ond mae'r lle sydd ar gael yn gyfyngedig.

**H 4 Materion Eraill**

4.1 **Rhodd**: Mae teulu o ofaint o ardal Wrecsam yng ngogledd Cymru wedi creu strwythur metel ar ffurf draig o'r enw 'Dixie' ac wedi ei roi yn rhodd i'r Gwasanaeth Morwrol. Fe'i rhoesant i'r gwasanaeth gyda'r bwriad clir bod y strwythur yn cael ei osod yn ardal yr harbwr ym Mhorthmadog, fel cydnabyddiaeth o atgofion teuluol yn yr harbwr.

4.1.1 Bydd y strwythur yn cael ei osod ar blinth llechen a'i leoli mewn safle diogel yn yr harbwr, lle bydd holl ddefnyddwyr yr harbwr yn gallu ei weld.

4.2 **Diogelwch yr Harbwr:** Mae'r gwasanaeth wedi uwchraddio'r system Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) sydd wedi'i osod o amgylch yr harbwr ar gost o £2290. Mae caledwedd a chamerâu newydd wedi cael eu gosod, ac mae camera arall wedi cael ei adleoli i roi gwell golwg o ardal yr harbwr.

4.3 **Lloc yr Harbwr:** Mae gwaith wedi cychwyn i dacluso lloc yr harbwr sydd wedi'i leoli tu ôl i swyddfa'r harbwr. Bydd set newydd o giatiau yn cael eu gosod wrth y fynedfa i'r lloc yn ystod y gaeaf, a bydd llawr concrid yn cael ei osod yn yr ardal sydd wedi'i ffensio.

4.3.1 Bydd gwrych 'Griselinia' yn cael ei osod wrth ochr y lloc sy'n wynebu'r llithrfa, er mwyn cuddio'r ffens wrth edrych arno o du allan y lloc. Drwy wneud hyn, gobeithir y bydd yr ardal yn edrych yn fwy deniadol.

4.4 **Maes Parcio**: Mae'r Gwasanaeth yn gobeithio uwchraddio'r peiriant 'talu ac arddangos' sydd wedi'i leoli yn y maes parcio tu ôl i swyddfa'r harbwr. Yn ystod y gaeaf bydd y peiriant, sy'n derbyn arian mân yn unig ar hyn o bryd, yn cael ei addasu fel bod modd talu drwy *'chip and pin'*. Amcangyfrifir fod y gost net o ddarparu'r cyfleuster yma yn tua £4000.

4.5 **Borth-y-Gest.** Dymuna'r Gwasanaeth atgoffa defnyddwyr yr harbwr o'r angen i'r giatiau aros ynghau yn ystod y gaeaf.

**H5 Digwyddiadau**


5.1 Cynhaliwyd y digwyddiadau a ganlyn yn yr harbwr yn ystod yr haf;

- Diwrnod Bad Achub yr RNLI
- Digwyddiadau Cychod Hir Celtaidd a gynhaliwyd gan Glwb Hwylio Madog
- Digwyddiad Beiciau Modur Hynafol


5.2 Dymuna'r Gwasanaeth gynghori trefnwyr digwyddiadau yn eiddo'r harbwr yn y dyfodol y dylid darparu'r wybodaeth berthnasol am y digwyddiad ar y cyfle cyntaf. Bydd hyn yn helpu'r Gwasanaeth i benderfynu a ddylid eu hawdurdodi, a'r prosesau gweinyddol a staffio.

| HARBWR PROTHMADOG | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2024 at 31 Mawrth 2025 - Adolygiad Awst 2024 | | |
|---|---|---|---|
| | CYLLIDEB 1/4/24 at 31/3/25 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/24 at 31/3/25 | GOR (TAN) |
| Gweithwyr | 73,510 | 76,930 | 3,420 |
| | | | |
| Eiddo | 28,590 | 9,912 | (18,678) |
| | | | |
| Trafnidiaeth | 800 | 39 | (761) |
| | | | |
| Gwasanaethau a Cyflenwadau | 13,660 | 30,518 | 16,858 |
| | | | |
| Gwariant Un Tro - Ariannu o Cronfeydd yr Adran | | 525 | 525 |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | 116,560 | 117,923 | 1,363 |
| | | | |
| Incwm | (86,110) | (80,900) | 5,210 |
| Cyfraniad o Cronfeydd Tuag at Wariant Un Tro | 0 | (525) | (525) |
| | | | |
| **Cyfanswm Net** | **30,450** | **36,498** | **6,048** |


# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned





Cynyddodd y nifer cwsmeriaid gyda chytundeb angori 6.5% yn ein harbyrau o'i gymharu ar flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 250 i 266. Mae'r wasgfa ariannol yn golygu fod nifer o gwsmeriaid wedi eu denu i Wynedd gan, yn gyffredinol, fod y gost yn is. Mae rhai cwsmeriaid hefyd wedi dychwelyd yn dilyn diwedd i gyfyngiadau Covid. Mae trefn ceisio am angorfa ar lein yn weithredol ers Ebrill 2023. Mae nifer o gwsmeriaid cychod pŵer hefyd wedi penderfynu cael angorfa yn lle lansio'n ddyddiol, sydd wedi cyfrannu at gadw nifer angorfeydd yn weddol sefydlog. Rydym hefyd wedi llwyddo i ddenu nifer o gwsmeriaid newydd.





Roedd 86% o'r ymatebwyr o'r farn bod eu profiad o'r harbyrau yn 'Dda Iawn' (81%) neu'n 'Dda' (5%) sydd 23% yn uwch na'r ganran ar gyfer y cyfnod blaenorol. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol am broffesiynoldeb ac agwedd ein swyddogion, gyda rhai yn datgan fod y swyddogion yn "wybodus" ac "wedi mynd allan o'u ffordd i helpu".




Ni chafodd unrhyw gymhorthion mordwyo eu difrodi neu'u colli yn ystod misoedd y gaeaf, er bod nifer ohonynt wedi gorfod cael eu hail-leoli wrth i sianeli mordwyo symud.




Roedd 76% o'r ymatebwyr o'r farn fod eu profiad o draethau Gwynedd yn 'Dda Iawn' (58%) neu'n Dda (18%), sydd 16% yn is na'r ganran am y cyfnod blaenorol. Roedd llawer o'r farn fod y traethau'n ddiogel a glân, fod staff yn gyfeillgar a chymwynasgar a bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith. Roedd rhai yn meddwl fod baw ci, cŵn afreolus a biniau gorlawn yn broblem mewn rhai safleoedd.


Harbwr Porthmadog Harbour
Mae'r sianel yn newid ei chwrs yn rheolaidd, cynghorir bod morwyr yn cysylltu efo'r Harbwrfeistr ym Mhorthmadog am y wybodaeth ddiweddaraf
The channel changes it's course on a regular basis, it's adviced to contact the Harbourmaster at Porthmadog for the latest information.
01766 512927 / 07879 433 147, VHF 12/16
Borth y Gest
Cei Balast
17 FLG 6s
15 FLG 2 5s
Bae Samson
Cwt powdr
Powder house
12 Fl r 4s
Traeth y Graig Ddu
Black Rock Sands
11 FLG5 20s
Banc y Gogledd
North bank
10 FLR 2.5s
Cynghorir morwyr i beidio mordwyo dros y draethell oni bai fod o fewn 2 awr pob ochor i'r pen llanw, cychod gyda draft fwy na 1.5 i fod fewn 1.5 awr bob ochor i'r pen llanw.
9 FLG 4 15s
The channel should not be used at any time other than 2hrs either side of high water,vessels with a draft greater than 1.5m should only use the channel 1.5 hrs either side of high water
1 FLG
2 Q FLR
3 FLG 3s
4FL R (2) 5s
6 FLR 3 10s
Trwyn Harlech Point
N
FAIRWAY
LFLW 10s
52 52.970 N 004 11.200 W
Rhybydd / Caution
Nid yw gael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo
Not to be used for navigation